Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Ger y Nant

Treharris

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/03/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ger y Nant

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	4
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	09 Mawrth 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Gwasanaeth bach yw Ger y Nant sydd wedi'i leoli yn Edwardsville Treharris, gan ddarparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw ag awtistiaeth a/neu anableddau dysgu.

Mae'r bobl wedi setlo ac maent yn byw yn y cartref ers nifer o flynyddoedd. Mae'r staff gofal yn darparu gofal a chymorth cyson ac maent yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda. Mae dogfennaeth gofal y bobl yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth glir i'r staff gofal ei dilyn. Caiff y ddogfennaeth gofal ei hadolygu'n rheolaidd gan sicrhau ei bod yn berthnasol o hyd. Anogir y bobl i wneud dewisiadau bob dydd a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae amrywiaeth o bobl broffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl a chaiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn lân, yn gyfforddus ac yn addas i anghenion y bobl.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'n effeithiol drwy ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd a chasglu gwybodaeth er mwyn annog gwelliannau. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu datblygu i'w llawn botensial. Nid oes gan yr holl staff y wybodaeth ddiweddaraf am eu gofynion hyfforddiant, ac nid ydynt wedi cael y lefel ofynnol o oruchwyliaeth ac arfarniad.

Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Caiff cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd rhwng y bobl a'u cynrychiolwyr. Caiff y bobl eu hannog i ddilyn eu nodau a'u huchelgeisiau eu hunain ac mae cynlluniau sy'n cefnogi'r bobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol o hyd i anghenion gofal a chymorth presennol y person. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda ac maent yn cyfathrebu â nhw gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae systemau ar waith sy'n helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Cedwir y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac maent yn hyrwyddo arferion diogel. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn gwybod sut i godi pryderon. Mae'r staff gofal yn dilyn mesurau rheoli heintiau a chaiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi yn ddiogel. Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol. Mae gwelliannau'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol o'u gofynion hyfforddiant ac yn cael y lefel ofynnol o gymorth ffurfiol.

Caiff iechyd corfforol a meddyliol y bobl a'u llesiant emosiynol eu hybu. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref a'r gymuned ehangach. Mae'r cofnodion yn dangos bod amrywiaeth dda o broffesiynau iechyd a gofal ar gael i'r bobl ac mae'r staff gofal yn gwneud atgyfeiriadau amserol pan fo angen.

Mae amgylchedd cartrefol yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn gyfforddus gyda décor a dodrefn priodol. Gall y bobl bersonoli eu gofod personol fel y mynnont. Mae'r cartref mewn cyflwr da. Mae rhaglen dreigl o wasanaethu, gwirio a chynnal a chadw i sicrhau bod y cartref, ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn ddiogel.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff cynlluniau personol eu llunio ar y cyd rhwng y bobl, eu cynrychiolwyr a'r tîm amlddisgyblaethol pan fo angen. Er enghraifft, caiff Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol eu datblygu gyda mewnbwn gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal gorau posibl. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff ar sut i gefnogi'r bobl i reoli eu hymddygiadau mewn modd parchus a diogel. Caiff risgiau eu hasesu a'u rheoli gan ddefnyddio dull cadarnhaol lle caiff buddiannau cymryd risgiau eu hystyried hefyd. Mae'r pasbortau cyfathrebu'n nodi'r ffyrdd gorau o gyfathrebu â'r bobl ac maent yn nodi hoff bethau, cas bethau a diddordebau'r bobl. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n unol â'r rheoliadau i sicrhau bod y wybodaeth yn parhau'n berthnasol.

Mae mesurau ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi yn ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio yn unol â'r canllawiau arferion gorau ac mae siartiau cofnodi meddyginiaeth yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth yn unol ag argymhellion y rhagnodwyr. Mae cynlluniau cymorth ac asesiadau risg perthnasol ar waith ar gyfer y bobl. Er enghraifft, mae cynlluniau ynghylch rhoi meddyginiaeth ‘pan fo angen’ (PRN). Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gweinyddu'r math hwn o feddyginiaeth. Maent hefyd yn nodi'r rheswm pam y mae angen y feddyginiaeth. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod meddyginiaeth PRN yn cael ei rhoi yn unol â chynlluniau'r bobl.

Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus â'r gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Nid oedd yn bosibl i ni gael adborth llafar gan y bobl oherwydd yr anawsterau cyfathrebu sydd ganddynt. Fodd bynnag, gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal. Gwelsom y staff gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Roedd y bobl yn ymddangos wedi ymlacio ac yn hapus sy'n awgrymu eu bod yn fodlon ar lefel y cymorth a gânt. Cawsom adborth canmoliaethus gan sawl perthynas i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd un perthynas, *“The care is very good. My son’s been there 13 years. The staff are good with him, some of them have been there for years and know him really well”.*

Gall y bobl ddewis sut maent yn treulio eu hamser a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau maent yn eu mwynhau. Gwelsom dystiolaeth yng nghynlluniau personol y bobl bod amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael iddynt gan gynnwys tasgau cyffredinol yn y cartref ynghyd â gweithgareddau hamdden. Mae cynlluniau cymorth ar waith ar gyfer pob gweithgaredd y bydd y bobl yn cymryd rhan ynddo, gan roi arweiniad i'r staff gofal ynghylch lefel y cymorth sydd ei angen. Caiff y bobl eu helpu hefyd i gynnal cydberthnasau â ffrindiau a pherthnasau. Dywedodd perthnasau wrthym y gallant ymweld â'r gwasanaeth pryd bynnag y mynnont, a bod y bobl yn cael cymorth hefyd i ymweld â'u perthnasau yn eu cartrefi.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân, cyfforddus a diogel. Mae'r cartref yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod a gofynnir i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael. Mae'r staff gofal yn dilyn rota glanhau i sicrhau y cynhelir safonau glendid a hylendid. Dyfarnwyd sgôr o bedwar i'r gegin gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda. Mae'r ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd y bobl wedi'u dodrefnu a'u haddurno'n briodol. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd fel y mynnont. Mae ystafelloedd y bobl hefyd yn cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi en suite. Mae gardd sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda y gall y bobl ei defnyddio i ymlacio a chymryd rhan mewn gweithgareddau pan fyddant yn dymuno.

Mae rhaglen barhaus o gynnal a chadw, gwasanaethu a gwirio ar waith yn yr amgylchedd. Mae hyn yn sicrhau bod yr amgylchedd; ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom edrych ar ddogfennau sy'n ymwneud â diogelwch amgylcheddol a gwelsom fod tystysgrifau cyfredol ar waith ar gyfer gosodiadau trydanol, nwy a nodweddion diogelwch tân. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau i sicrhau y caiff unrhyw faterion amgylcheddol eu nodi ac y gweithredir arnynt.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae mesurau sicrhau ansawdd parhaus yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn unol â gofynion rheoliadol. Yn ystod yr ymweliadau hyn, bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn dadansoddi data sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, yr amgylchedd a materion staffio. Maent hefyd yn cael trafodaethau â staff a phobl i lywio gwelliannau. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gynnal bob chwe mis a chaiff adroddiad ei lunio sy'n nodi canfyddiadau'r adolygiad. Gwnaethom archwilio'r adroddiad diwethaf o ansawdd y gofal a gwelsom ei fod yn nodi'n glir gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd lle mae angen rhagor o ddatblygu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cwblhau cyfres o archwiliadau o ansawdd sydd â'r nod o sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod yn diwallu anghenion y bobl.

Caiff staff gofal eu recriwtio'n ddiogel, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ffeiliau personél a gwelsom fod yr holl wiriadau cyn cyflogaeth angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, hanes cyflogaeth a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ar ôl cael cynnig o gyflogaeth, rhaid i staff gofal gwblhau rhaglen sefydlu strwythuredig. Cânt hefyd gyfle i gysgodi aelodau profiadol o'r tîm fel y gallant ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth a'r bobl sy'n byw yno. Darperir hyfforddiant parhaus. Fodd bynnag, mae'r cofnodion sy'n ymwneud â hyfforddiant yn dangos nad yw'r holl staff wedi bodloni eu gofynion o ran hyfforddiant craidd. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwyr ac esbonio bod hyn yn faes i'w wella ac y byddem yn disgwyl i'r gwasanaeth weithredu cyn gynted ag y bo modd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Dywedodd un, *“The manager is amazing, really approachable and supportive”.* Yn yr arolygiad diwethaf, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael y lefel ofynnol o gymorth ffurfiol. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn yr arolygiad hwn yn dangos nad oedd gwelliannau o'r fath wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Oherwydd hyn, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a byddem yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater.

Mae'r wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth yn gywir ac mae'n disgrifio'n glir pa ddarpariaethau sydd ar gael. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau gan gynnwys fformat hawdd ei ddarllen. Caiff y dogfennau eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Ymysg y ddogfennaeth ysgrifenedig arall a welsom roedd detholiad o bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Gwelsom fod y rhain yn fanwl a'u bod yn cynnig lefel dda o wybodaeth gan helpu i ategu arferion diogel.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 36(2)(c) - Mae hyn am nad yw pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol.	Heb Gyflawni

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 36(2)(d) am nad yw'r holl staff yn bodloni gofynion y gwasanaeth o ran hyfforddiant craidd.	Newydd
35	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 35(2)(d) - Mae hyn am nad yw'r holl wybodaeth am recriwtio staff ar gael yn y gwasanaeth i'w harolygu.	Cyflawnwyd

Dyddiad Cyhoeddi 13/04/2023